Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Cyfeiriadur Addysg a Hyfforddiant yn y Maes Iechyd Cynhwysiant ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Is-adran Gofal Sylfaenol - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fersiwn 1.0 (2024-2026)

This document is availabe in English/Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg.

## Cynnwys

Cyflwyniad: 3

Sut i ddefnyddio'r cyfeiriadur? 4

Adran 1 - Cyrsiau Hyfforddi a Phecynnau Cymorth 6

Tabl 1 (Cyffredinol): Cyrsiau hyfforddi, pecynnau cymorth, ac adnoddau sy'n berthnasol i'r holl staff gofal iechyd i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd cynhwysiant. 6

Tabl 2 (Atodol): Cyrsiau hyfforddi ac adnoddau sy'n berthnasol i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb mewn anghenion iechyd grwpiau iechyd cynhwysiant, yn ogystal â staff sy'n darparu gwasanaethau iechyd cynhwysiant. 14

Tabl 3 (Diddordeb Arbennig): Cyrsiau hyfforddi ac adnoddau i staff a hoffai gael gwybodaeth fanylach am iechyd cynhwysiant fel arbenigedd. 19

Tabl 4: Y 10-20 prif fodiwl hyfforddi ac adnoddau sy'n berthnasol i'r tri grŵp proffesiynol a nodir yn Adroddiad adolygu Mapio Addysg Iechyd Cynhwysiant Pathway (Noder, dim ond yn Saesneg y mae'r rhain ar gael oni nodir yn wahanol). 25

Adran 2 - Ffordd o fyw a gwybodaeth glinigol: dolen i'r gwefannau allweddol, pecynnau adnoddau ac adroddiadau sy'n berthnasol i faterion iechyd a llesiant cyffredin sy'n gysylltiedig â grwpiau iechyd cynhwysiant. 27

Atodiad 1: Rhestr wirio Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a nodiadau myfyriol 43

Cyfeiriadau: 44

## Diolchiadau:

Datblygodd Is-adran Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru y ddogfen hon ar ran Rhwydwaith Cenedlaethol Nyrsys Iechyd Cynhwysiant. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cyfeiriadur hwn.

Hoffem ddiolch i'r aelodau canlynol o'r grŵp gorchwyl a gorffen am gefnogi'r gwaith o goladu'r adnoddau a darparu cyngor arbenigol drwy gydol y broses o ddatblygu'r adnodd hwn.

- Dr Ayla Cosh, Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro
- Janet Keauffling, Nyrs Arbenigol y Digartref ac Oedolion Agored i Niwed Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
- Star Moyo, Uwch Nyrs y Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Cyflwyniad:

Term ambarél a ddefnyddir i ddisgrifio unigolion sy’n wynebu allgau cymdeithasol ac sy’n dod ar draws ffactorau risg amrywiol ar gyfer iechyd gwael, gan gynnwys tlodi, trais, a thrawma cymhleth yw iechyd cynhwysiant. Mae’r categori hwn yn cynnwys y rhai sy’n ddigartref, yn ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, mudwyr sy'n agored i niwed, aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr, gweithwyr rhyw, unigolion sy’n rhan o'r system gyfiawnder, a dioddefwyr caethwasiaeth fodern. Yn aml, mae canlyniadau iechyd pobl sy'n perthyn i'r grwpiau cynhwysiant hyn yn llawer gwaeth o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ac mae eu hoedran marwolaeth cyfartalog yn is. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y gwahaniaethau iechyd cynyddol. Mae grwpiau iechyd cynhwysiant yn aml yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad i wasanaethau gofal iechyd a gallant gael profiadau negyddol oherwydd rhwystrau lluosog yn y system gofal iechyd[1].

Mae gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu ym maes iechyd cynhwysiant yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau teg. Yn y DU, mae pob un o'r pedair gweinyddiaeth ddatganoledig yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori Iechyd Cynhwysiant mewn addysg a hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae pob gwlad wedi cyhoeddi canllawiau i wella canlyniadau iechyd ar gyfer grwpiau ymylol. Fodd bynnag, nid yw astudiaethau diweddar wedi dod o hyd i dystiolaeth bod gan adrannau’r llywodraeth a sefydliadau cenedlaethol gynllun i sicrhau bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y wybodaeth a’r sgiliau angenrheidiol i ofalu am gymunedau sy'n agored i niwed[2]. Yn ôl tystiolaeth a gyhoeddwyd gan sefydliadau sy’n cyflogi staff sy’n gweithio gyda grwpiau agored i niwed, mae llawer o ymarferwyr gofal iechyd wedi cydnabod yr angen i gaffael y wybodaeth a’r sgiliau i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau o gymunedau sydd wedi’u hallgáu’n gymdeithasol[2].


Tra roeddem yn ysgrifennu’r cyfeiriadur hwn, clywsom fod trafodaethau ar y gweill yng Nghymru i greu fframwaith gwybodaeth a sgiliau ar gyfer iechyd cynhwysiant. Yn y cyfamser, mae'r cyfeiriadur hwn wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i nodi cyfleoedd addysg a hyfforddiant i'w helpu i ddatblygu'r sylfaen wybodaeth ar gyfer iechyd cynhwysiant ac anghydraddoldebau iechyd.

Nid yw'r cyfeiriadur yn honni ei fod yn ganllaw hollgynhwysfawr i'r holl gyfleoedd addysg a hyfforddiant. Mae wedi'i gyfyngu i'r rhai a nodwyd drwy adolygiad o wefannau iechyd addysgol, gwybodaeth gweithwyr iechyd proffesiynol, a chwiliad cyflym ar y rhyngrwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024.

## Sut i ddefnyddio'r cyfeiriadur?

Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n dair adran, pob un â chod lliw gwahanol, er mwyn galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i gyrsiau perthnasol yn seiliedig ar eu hanghenion a'u diddordebau yn hytrach na mynd drwy'r cyfeiriadur cyfan fesul tudalen. I fynd i'r adran berthnasol, dylech hofran y cyrchwr dros y bloc lliw, a chlicio.

- Mae Adran 1 yn cynnwys gwybodaeth a dolenni i'r sefydliadau a'r gwefannau sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ac adnoddau sy'n berthnasol i iechyd cynhwysiant ac anghydraddoldebau iechyd mewn tair haen gan gynnwys adnoddau cyffredinol, adnoddau atodol ac adnoddau diddordeb arbennig.




Ffigur 1: Hierarchaeth adnoddau hyfforddi

Yr adran hon yw'r un fwyaf helaeth yn y cyfeiriadur ac mae'n cynnwys pedwar tabl:

- Tabl 1 (Cyffredinol): Cyrsiau hyfforddi, pecynnau cymorth ac adnoddau sy'n berthnasol i'r holl staff gofal iechyd i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd cynhwysiant.
- Tabl 2 (Atodol): Cyrsiau hyfforddi ac adnoddau sy'n berthnasol i'r holl staff sydd â diddordeb mewn anghenion iechyd grwpiau iechyd cynhwysiant a staff sy'n darparu gwasanaethau iechyd cynhwysiant.
- Tabl 3 (Diddordeb Arbennig): Cyrsiau hyfforddi ac adnoddau i staff sydd am gael gwybodaeth fanylach am anghydraddoldebau iechyd ac iechyd cynhwysiant fel is-arbenigedd.
- Tabl 4: Y 10-20 prif fodiwl hyfforddi ac adnoddau sy'n berthnasol i'r tri grŵp proffesiynol a enwir yn Adroddiad adolygu Mapio Addysg Iechyd Cynhwysiant Pathway[2].

- Mae Adran 2 yn cynnwys dolenni i ffynonellau gwybodaeth glinigol a gwybodaeth am ffordd o fyw sy'n gyffredin ymhlith grwpiau iechyd cynhwysiant.

- Mae Adran 3 yn cynnwys adnoddau darllen ychwanegol ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol a gwybodaeth am bolisïau a deddfwriaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau iechyd cynhwysiant.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr wirio datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a awgrymir er mwyn darparu cofnod dysgu a myfyrio i ddefnyddwyr pan fyddant yn cwblhau gweithgareddau dysgu perthnasol.

## Adran 1 - Cyrsiau Hyfforddi a Phecynnau Cymorth

**Tabl 1 (Cyffredinol):** Cyrsiau hyfforddi, pecynnau cymorth, ac adnoddau sy'n berthnasol i'r holl staff gofal iechyd i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd cynhwysiant.

| Teitl | Cynnwys | Hyd | Cost | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu -** Hyb Anghydraddoldebau Iechyd (Saesneg yn unig) | Mae hyb anghydraddoldebau iechyd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu (RCGP) yn cynnwys tri chwrs e-ddysgu ac adnoddau eraill.<br>• Mae'r **cwrs cyntaf** yn cyflwyno anghydraddoldebau iechyd, termau fel penderfynyddion ehangach iechyd, y ddeddf gofal gwrthgyfartal a'r gorgyffwrdd rhwng ffactorau lluosog.<br>• Mae'r **ail gwrs** yn ymwneud â **grwpiau iechyd cynhwysiant**, gan gynnwys y rhai sy'n profi digartrefedd, dioddefwyr caethwasiaeth fodern a mudwyr sy'n agored i niwed.<br>• Yn y **trydydd cwrs** trafodir egwyddor cynghreiriaeth ac ymyrraeth gan y rhai sy'n dystion i hiliaeth, sut i osgoi micro-ymddygiad ymosodol anfwriadol a sut y gallai practis ymdrin â chlaf sy'n mynegi teimladau hiliol.<br>• Mae gweddill yr hyb yn cynnwys cyfweliadau a gweminar gyda'r Athro Syr Michael Marmot, podlediad am ddefnyddio gweithwyr cyswllt presgripsiynu cymdeithasol i leihau anghydraddoldebau iechyd ac adran am gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Yn olaf, ceir dolenni i adnoddau eraill, gan gynnwys 'absenoliaeth', pan na fydd cleifion yn mynychu apwyntiadau ac y gallent gael eu niweidio yn sgil hynny, a mynd i'r afael â'r | 30-45 munud bob cwrs | Am ddim | https://elearning.rcgp.org.uk/mod/page/view.php?id=3927 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | anghydraddoldebau iechyd cynyddol a welwyd ers y pandemig COVID-19. | | | |
| **Fair Health: Health Equity Action and Learning Elusen** sy'n cynnig cyrsiau am ddim, e-ddysgu, blogiau, podlediad, a mwy. Mae'r cyfan wedi'i gynllunio i alluogi pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i weithio mewn ardaloedd o amddifadedd, gyda chleifion sydd ar y cyrion, ac i leihau anghydraddoldebau. | • Cyflwyniad byr i iechyd cynhwysiant<br>• Canllaw ymarferol i leihau anghydraddoldebau iechyd mewn gofal sylfaenol.<br>• Canllaw gofal iechyd i fyfyrwyr i gefnogi pobl sy'n ddigartref.<br>• Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod<br>• Awtistiaeth ac iechyd cynhwysiant<br>• Cymuned yw'r feddyginiaeth orau.<br>• Egluro'r data<br>• Gwasanaeth Allgymorth ar y Stryd yn Gysylltiedig ag Iechyd<br>• Anghydraddoldebau iechyd a gofal eilaidd<br>• Cyflwyno anghydraddoldebau iechyd ar gyfer arweinwyr gofal sylfaenol<br>• Cyflwyno anghydraddoldebau iechyd mewn Gofal Sylfaenol<br>• Arwain i sicrhau tegwch iechyd | O leiaf 20 munud hyd at uchafswm o 2 awr. | Am ddim | https://www.fairhealth.org.uk/courses |
| **GIG Lloegr:** Rhaglen e-ddysgu All Our Health (Saesneg yn unig) | Mae sesiynau e-ddysgu All Our Health wedi'u datblygu i roi cyflwyniad byr i ystod eang o bynciau'r fframwaith. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys cyfeirio at ffynonellau tystiolaeth, arweiniad a chymorth defnyddiol sy'n ddibynadwy. Gallwch ddefnyddio'r cynnwys pryd bynnag y bydd ei angen arnoch chi. Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau ar Iechyd Cynhwysiant a Digartrefedd.<br>**Noder:** : Mae hwn yn adnodd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr, felly nid yw rhywfaint o'r wybodaeth, megis cyfeirio a fframweithiau deddfwriaethol, yn berthnasol i Gymru. | Sesiynau byr Gallwch fynd i mewn ac allan o'r sesiwn fel y mynnwch. | Am ddim | https://www.e-lfh.org.uk/programmes/all-our-health/ |
| **Rhaglen Anghydraddoldebau** | Cynlluniwyd y rhaglen anghydraddoldebau iechyd i helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i: | Chwe sesiwn, 30 | Am ddim | https://www.e-lfh.org.uk/programmes/health-inequalities/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd** GIG Lloegr (Saesneg yn unig) | • ddeall pwysigrwydd anghydraddoldebau iechyd mewn ymarfer clinigol.<br>• adnabod achosion anghydraddoldebau iechyd mewn gwasanaethau, profiad, neu ganlyniadau ymhlith cleifion.<br>• myfyrio ar rôl y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrth gau'r bwlch anghydraddoldebau iechyd.<br>• Defnyddio methodoleg gwella ansawdd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn eu maes | munud yr un | | |
| **Prifysgol y Frenhines Mary, Llundain** Pecyn cymorth ar greu gofal sylfaenol teg wedi'i anelu at ymarferwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (Saesneg yn unig) | Mae'r pecyn cymorth hwn yn disgrifio gofal sylfaenol teg ac yn darparu camau ymarferol i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. | Dd/B | Am ddim | https://www.qmul.ac.uk/ceg/media/ceg/documents/Final_HealthInequalitiesReport_Cambridge_Reduced.pdf |
| **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)** e-Ddysgu Cymhwysedd Diwylliannol | • **Modiwl 1:** Cyflwyniad i Ddiwylliant<br>• **Modiwl 2:** Cymhwysedd Diwylliannol | 40 munud | Am ddim | https://aagic.gig.cymru/cefnogaeth/ymgyrchoedd-ymwybyddiaeth/ymgyrch-ymwybyddiaeth-ddiwylliannol-fferylliaeth/her-2-cwblhau-2-fodiwl-e-ddysgu/ |
| **GIG Lloegr:** Rhaglen Cymhwysedd Diwylliannol a Diogelwch Diwylliannol (Saesneg yn unig).<br><br>Diben yr adnodd e-Ddysgu ar gymhwysedd diwylliannol a diogelwch diwylliannol yw cefnogi | • Nod y **sesiwn gyntaf** yw disgrifio'r hyn a olygir wrth 'ddiwylliant' a pham mae'n bwysig i weithwyr iechyd proffesiynol fod yn ymwybodol o sut y gall hyn effeithio ar iechyd.<br><br>• Mae'r **ail sesiwn** yn disgrifio cymhwysedd diwylliannol a'i bwysigrwydd i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ar draws sefyllfaoedd trawsddiwylliannol. | Yn cynnwys tair sesiwn ddysgu 20-30 munud. | Am ddim | https://www.e-lfh.org.uk/programmes/cultural-competence/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| clinigwyr yn y GIG i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â diwylliant ac iechyd; a sut y gallai hyn ddylanwadu ar ganlyniadau gofal iechyd. | • Mae'r **drydedd sesiwn (wedi'i hanelu at fydwragedd) yn archwilio** pwysigrwydd cymhwysedd diwylliannol yng nghyd-destun gofal mamolaeth. Ei nod yw helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi a diwallu anghenion poblogaeth sy'n newid.<br>• **Nodyn:** mae angen mynediad i Elfh. Gall staff sydd â chyfrif GIG gofrestru am ddim. | | | |
| **Sefydliad Nyrsio'r Frenhines (QNI).** Rhaglen Iechyd y Digartref ac Iechyd Cynhwysiant (Saesneg yn unig) | Mae tudalen y rhaglen iechyd y digartref ac iechyd chynhwysiant yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys astudiaethau achos, prosiectau arloesol, dolenni i ystod eang o adnoddau myfyrwyr ym maes iechyd cynhwysiant a DPP mewn nyrsio iechyd cynhwysiant, a chanllawiau a phecynnau cymorth ar gyfer pob tîm nyrsio. Gellir cael mynediad i hwn unrhyw bryd. | Hyblyg | Am ddim | https://qni.org.uk/nursing-in-the-community/homeless-and-inclusion-health-programme/ |
| **Shelter Cymru:**<br>Cwrs 1 - Atal digartrefedd.<br><br>Cwrs 2 - Gweithredu i Atal Digartrefedd<br><br>(Saesneg yn unig) | Mae'r ddau gwrs ar gyfer gweithwyr rheng flaen sy'n dod i gysylltiad â phobl yn ddyddiol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): Athrawon, meddygon teulu, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth, hyfforddwyr swyddi DWP, asiantaethau gwirfoddol, cymdeithasol gwasanaethau, gweithwyr ieuenctid, arweinwyr cymunedol, a'r heddlu.<br>**Mae cwrs un yn cynnwys:**<br>• Ystyr digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014<br>• Dyletswydd Awdurdodau Lleol i asesu ymgeiswyr digartref.<br>• Dyletswydd Awdurdodau Lleol i ddarparu llety dros dro.<br>• Llwybrau atgyfeirio at gymorth pellach<br>**Mae cwrs dau yn cynnwys:**<br>• Trafod mythau cyffredin am ddigartrefedd<br>• Astudiaethau achos | Hanner diwrnod 10-12:30 | Gellir cyflwyno'r rhain yn fyw ar-lein i grwpiau o hyd at 20 o bobl am gyfanswm o £650 neu fel e-ddysgu am £90 y pen | https://training.sheltercymru.org.uk/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Yr hyn sy'n sbarduno digartrefedd<br>• Arwyddion i chwilio amdanynt mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau penodol.<br>• Straeon gan bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd<br>• Cyfleoedd hyfforddi pellach | | | |
| **Coleg y Brenin Llundain: Pecyn cymorth diogelu i ymarferwyr ar ddigartrefedd yn sgil sawl ffactor allgau** (Saesneg yn unig) | Mae’r offeryn hwn yn cyfeirio ymarferwyr o bob rhan o’r sectorau at ddeunyddiau perthnasol i gynorthwyo asiantaethau i ganfod yn wrthrychol yr anghenion am gymorth yn seiliedig ar lety, gan gydnabod risgiau cyffredin sy’n gysylltiedig ag anghenion gofal a chymorth, gan ystyried risgiau sy’n gysylltiedig â digartrefedd yn sgil sawl ffactor allgau, a phwyso a mesur y llwybrau rheoli risg amlasiantaeth sydd ar gael i nodi pa gamau sydd eu hangen a chan bwy i leihau neu ddileu risg rhagweladwy yn unol â’r fframwaith cyfreithiol. | Dd/B | Am ddim | https://www.kcl.ac.uk/hscwru/assets/news/2023/nov/safeguarding-multiple-exclusion-homelessness-toolkit-2023.pdf |
| Aneemo. Com | Cyrsiau Sylfaen sy'n amrywio o fodiwlau annibynnol sy’n cynnwys sawl awr astudio i raglenni ehangach gyda modiwlau lluosog wedi’u rhyddhau mewn adrannau cryno i gefnogi eich dysgu a’ch ymgysylltiad â phynciau fel Iechyd Meddwl y rhai sy'n Cysgu Allan a gwella mynediad at wasanaethau i gleientiaid sy’n profi anfanteision lluosog a chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, dulliau sy'n ystyriol o drawma ac ati. | Yn amrywio - hyd at 45 munud fesul modiwl | Cymysgedd o fodiwlau am ddim a rhai y codir tâl amdanynt (£36 y pen) | https://www.aneemo.com/courses |
| **GIG Lloegr:** Porth Llesiant y Boblogaeth (Saesneg yn unig) | Lleoliad canolog ar gyfer dysgu er mwyn cyflawni gwelliannau mewn iechyd cyhoeddus, atal a llesiant yw hwn. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys ystod eang o bynciau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys sesiynau ar anghydraddoldebau iechyd a Digartrefedd.<br>**Noder:** Adnodd PHE yw hwn, felly gall rhywfaint o'r wybodaeth gyfeirio fod y tu allan i Gymru. | Sesiynau byr. Gellir eu cwblhau yn eich amser eich hun. | Am ddim | https://www.e-lfh.org.uk/programmes/population-wellbeing-portal/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hyb ACE Cymru: Hyfforddiant Sefydliad Gwybodus am Drawma Cymru Gyfan | Nod yr hyfforddiant hwn yw helpu sefydliadau i ddod yn wybodus am drawma a rhoi'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu ar waith. Ar hyn o bryd, mae 33 o sesiynau e-ddysgu All Our Health ar gael sy'n ymdrin ag amrywiol bynciau iechyd cyhoeddus.<br>Gall yr hyfforddiant ymddangos yn adnodd enfawr ac ychydig yn frawychus, ond mae wedi'i rannu'n benodau byr, felly cymerwch eich amser i archwilio pob adran. | Adrannau hyblyg, cryno | Am ddim | https://hybacecymru.com/adnoddau/hyfforddiant-sefydliad-gwybodus-am-drawma-cymru-gyfan/ |
| Aces Aware | Dysgu ar y cyd i hyrwyddo a gweithredu sgrinio am ACEs a gwella ansawdd gofal. Casgliad o weminarau, offer, adroddiadau, canllawiau a hyfforddiant. Mae Cyrsiau Hyfforddi yn cynnwys:<br>Canllaw Sut i ar Sgrinio am ACEs - 3 modiwl (2 awr).<br>Lleihau Straen: 8 modiwl, 5 awr<br>Cyfres siaradwr ar wyddoniaeth ac arloesi: awr yn aml.<br>**Noder:** Adnodd o'r Unol Daleithiau yw hwn. Ar gyfer Cymru, edrychwch ar y rhes uchod | yn dibynnu ar y pwnc (1-5 awr). | Am ddim | https://training.acesaware.org/aa/ |
| Cymorth i Ferched – Cyrsiau DPP | Cyrsiau byr ar faterion fel cam-drin domestig, rheolaeth orfodol, a byw heb statws mewnfudo yn y DU. Rhai cyrsiau buddiol mewn iechyd cynhwysiant - megis cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi profi trais rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), trais domestig a statws mewnfudo, a thrais ar sail anrhydedd. | Hyd at 3 awr ar y mwyaf y sesiwn ar-lein | £75 y pen | https://www.womensaid.org.uk/what-we-do/training/cpd-courses/understanding-domestic-abuse/ |
| Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA). Pecyn cymorth iechyd cleifion ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar oresgyn rhwystrau. (Saesneg yn unig) | Yn ymdrin â heriau unigryw i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. | Dd/B | Am ddim | https://www.bma.org.uk/advice-and-support/ethics/refugees-overseas-visitors-and-vulnerable-migrants/refugee-and-asylum-seeker-patient-health-toolkit/overcoming-barriers-to-refugees-and- |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | asylum-seekers-accessing-care |
| **BMA.** Adnodd iechyd ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches **(Saesneg yn unig)** | Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at feddygon a all fod yn ansicr ynghylch anghenion iechyd a hawliau gofal ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a staff. Os oes gennych gleifion sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches, efallai y bydd gwybodaeth gefndir am eu teithiau a'u hamgylchiadau personol yn ddefnyddiol i chi. Gall hyn gefnogi dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r canllawiau'n rhoi gwybodaeth am: pwy yw ffoaduriaid a cheiswyr lloches, hawlio lloches yn y DU, hawliau i ofal gan y GIG, heriau iechyd a wynebir, rhwystrau i gael mynediad i ofal, rheoli rhwystrau iaith a llythrennedd, ac adnoddau defnyddiol. | Dd/B | Am ddim | https://www.bma.org.uk/media/1838/bma-refugee-and-asylum-seeker-health-resource-june-19.pdf |
| **Gov.UK.** Canllaw ar anghenion iechyd mudwyr (Saesneg yn unig) | Cyngor ac arweiniad ar anghenion iechyd cleifion mudol ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd. | | | https://www.gov.uk/government/collections/migrant-health-guide |
| **Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)** | Nid yw hwn yn ymwneud yn benodol ag iechyd cynhwysiant fodd bynnag mae MECC yn galluogi darparu gwybodaeth gyson a chryno am ffordd iach o fyw ac yn galluogi unigolion i gymryd rhan mewn sgyrsiau am eu hiechyd ar raddfa fawr ar draws sefydliadau a phoblogaethau.<br>Ar hyn o bryd mae dau fodiwl e-ddysgu newydd:<br>• **Lefel 1:** Sgyrsiau Pwysau Iach (Cymraeg a Saesneg)<br>• **Lefel 2:** Sgyrsiau Pwysau Iach (Cymraeg a Saesneg) | 30 munud ar gyfer pob modiwl | Am ddim | https://mecc.publichealthnetwork.cymru/cy/e-ddysgu/ |
| **PrescQIPP:** Cwmni Buddiant Cymunedol | Sefydliad dielw a ariennir gan y GIG sy'n cefnogi presgripsiynu o'r ansawdd uchaf i gleifion. Mae'n cynhyrchu adnoddau ac offer yn seiliedig ar | Yn amrywio yn dibynnu ar | Rhad ac Am Ddim Gan Fwyaf | https://www.prescqipp.info/about-prescqipp/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | dystiolaeth ar gyfer comisiynwyr gofal sylfaenol ac yn darparu llwyfan i rannu arloesedd ar draws y GIG. Mae'r rhan fwyaf o'u deunyddiau ar gael i'r cyhoedd. Mae hefyd yn darparu ystod o offer data a chudd-wybodaeth, gweminarau a digwyddiadau i danysgrifwyr. | y math o adnodd | | |
| **Doctors of the World:** Pecyn cymorth ar gyfer meddygfeydd diogel (Saesneg yn unig) | Mae'r pecyn cymorth yn nodi saith cam ar gyfer practisau i helpu i sicrhau bod pawb yn eu cymuned yn gallu cael mynediad i'r gofal iechyd y mae ganddynt hawl iddo.<br>Mae’r wefan yn cynnwys offer a thempledi amrywiol y gellir eu haddasu at ddefnydd Practisau Cyffredinol gan gynnwys:<br>• templed polisi cofrestru cleifion<br>• Pecyn cymorth ar gyfer meddygfeydd diogel mewn ymateb i COVID-19<br>Poster cyfeirio cyflym ar gyfer staff derbynfeydd. | Dd/B | Am ddim | https://www.doctorsoftheworld.org.uk/safesurgeries/safe-surgeries-toolkit/ |
| **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru** | Er nad oes modiwl na ffocws penodol ar anghenion y grwpiau iechyd cynhwysiant, bydd yr hyfforddiant hwn yn darparu’r sgiliau a’r wybodaeth i:<br>• Sôn am y rhaglenni sgrinio GIG a gynigir yng Nghymru.<br>• Gwybod pwy sy'n cael eu gwahodd i sgrinio, sut y byddant yn cael eu gwahodd a phryd.<br>• Deall manteision a risgiau sgrinio a phwysigrwydd gwneud dewis gwybodus.<br>• Cydnabod sut y gall anghydraddoldebau iechyd a brofir gan y bobl yr ydych yn eu cefnogi effeithio arnynt pan fyddant yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio. | Tri modiwl ar gael drwy Microsoft TEAMS (MST). | Am ddim | https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/hyfforddiant-ac-addysg-gymunedol/<br>Gallwch archebu'n uniongyrchol o'r ddolen uchod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Cyrchu a rhannu gwybodaeth gyfredol am sgrinio mewn fformatau gwahanol, er enghraifft, hawdd ei ddarllen.<br><br>• Hyrwyddwch sgrinio yn eich cymuned gyda phosteri, ffeithluniau, fideos ac adnoddau eraill sydd ar gael. | | | |

**Tabl 2 (Atodol):** Cyrsiau hyfforddi ac adnoddau sy'n berthnasol i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb mewn anghenion iechyd grwpiau iechyd cynhwysiant, yn ogystal â staff sy'n darparu gwasanaethau iechyd cynhwysiant.

| Teitl | Cynnwys | Hyd | Cost | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Cwrs iechyd cynhwysiant ar-lein** (Saesneg yn unig) Mae'r Gyfadran Iechyd y Digartref ac Iechyd Cynhwysiant yn cynnig chwe uned hyfforddi ar-lein rhad ac am ddim i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb mewn anghenion iechyd pobl ddigartref, pobl sy'n gwerthu rhyw, Sipsiwn a Theithwyr a mudwyr bregus. | **Modiwl 1-** Anghydraddoldebau iechyd: cyflwyniad i benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae'r uned hon yn berthnasol i bawb sy'n gweithio mewn neu'n byw gyda materion iechyd cynhwysiant.<br>**Modiwl 2—**Comisiynu gwasanaethau iechyd ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hallgáu: Mae'r uned hon wedi'i chynllunio ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau iechyd a llunwyr polisïau sy'n gofyn am arweiniad a thystiolaeth yn seiliedig ar ymarfer ar gyfer comisiynu gwasanaethau ond gall hefyd fod o ddiddordeb i ddarparwyr gwasanaethau sy'n ymchwilio i fodelau gweithio newydd.<br>**Modiwl 3—**Comisiynu Tai ar gyfer Grwpiau sydd wedi'u Hallgáu: Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio ar gyfer llunwyr polisïau, swyddogion tai awdurdodau lleol, comisiynwyr, a sefydliadau'r sector gwirfoddol.<br>**Modiwl 4-** Digartrefedd ac Iechyd – Cyflwyniad i Ymarferwyr a Darparwyr Gwasanaethau: Mae'r modiwl hwn ar gyfer ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau | 1-2 awr / Modiwl<br><br>Gyda rhai astudiaethau achos dewisol | Am ddim | [https://www.pathway.org.uk/the-faculty/](https://www.pathway.org.uk/the-faculty/) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ond mae'n cynnwys cysyniadau a allai helpu comisiynwyr a llunwyr polisïau.<br>**Modiwl 5** – Iechyd Meddwl, Defnyddio Sylweddau a Digartrefedd: Bydd yr uned hon o ddiddordeb i ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau, comisiynwyr, ymgyrchwyr a phobl sydd â phrofiad bywyd o gael eu hallgáu.<br>**Modiwl 6** – Y Defnydd o Gyffuriau ac Alcohol a Digartrefedd – Mae'r uned hon ar gyfer clinigwyr a darparwyr gwasanaethau yn bennaf. | | | |
| **Sefydliad Nyrsio'r Frenhines (QNI),** Adnodd nyrsio ar iechyd y digartrefedd ac iechyd cynhwysiant<br><br>(Saesneg yn unig) | Mae'r pecyn cymorth dysgu hwn yn cynnwys wyth pennod y gellir eu lawrlwytho, gan gynnwys:<br>1- Cyflwyniad i Iechyd y Digartref ac Iechyd Chynhwysiant<br>2- Pontio i nyrsio iechyd y digartrefedd ac iechyd cynhwysiant<br>3- Gweithio'n ddiogel<br>4- Ffocws ar y claf<br>5- Y tîm amlddisgyblaethol effeithiol<br>6- Gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o niwed<br>7- Ymateb i bolisi a chasglu tystiolaeth<br>8- Datblygu eich gyrfa (Mae modiwl wyth yn cysylltu â'r safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol). | Deunydd y gellir ei lawrlwytho a'i ddefnyddio yn eich amser eich hun. | Am ddim | https://qni.org.uk/resources/transition-care-home-nursing/<br><br>https://qni.org.uk/nursing-in-the-community/transition-community-nursing/homeless-health/ |
| **GroundsWell**<br><br>(Saesneg yn unig) | Darperir hyfforddiant Shelter ar-lein ac wyneb yn wyneb i grwpiau bach. Mae'r sesiynau'n cynnwys addysgu rhagarweiniol ar ddigartrefedd a'r system les a meysydd manylach ar gyfer y rhai â lefel uchel o gyswllt. Maen nhw hefyd yn cael sesiwn ar sgiliau cyfweld ysgogiadol, sy'n faes y cydnabyddir nad oes fawr o e-Ddysgu ar gael ar ei gyfer. | e-Ddysgu: 30-90 munud<br><br>Wyneb yn Wyneb 1 - 2 ddiwrnod | e-Ddysgu: £30-£40/ y pen<br>Wyneb yn Wyneb 160-300 y pen | https://england.shelter.org.uk/professional_resources/shelter_training/training_for_groups |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Noder:** efallai na fydd unrhyw ddeunydd hyfforddi sy'n ymwneud â meysydd polisi neu ddeddfwriaeth sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru yn berthnasol i gydweithwyr sy'n gweithio yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth tai a digartrefedd sy'n amrywio rhwng gwledydd. I weld polisïau a deddfwriaethau penodol i Gymru, ewch i wefan Shelter Cymru:<br><br>Shelter Cymru - Cartref yw popeth | | | |
| **Homeless Link**<br>(Saesneg yn unig) | Rhaglen dreigl o weminarau hyfforddi ar-lein sy'n canolbwyntio ar ddigartrefedd – rhai yn canolbwyntio ar iechyd. Ar hyn o bryd yn cynnig 11 seminar ar-lein yn ymdrin â phynciau amrywiol, gan gynnwys addysg, cyflogaeth, diogelu a rhai materion clinigol fel awtistiaeth.<br><br>**Noder:** efallai na fydd unrhyw ddeunydd hyfforddi sy'n ymwneud â meysydd polisi neu ddeddfwriaeth sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru yn berthnasol i gydweithwyr sy'n gweithio yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth tai a digartrefedd sy'n amrywio rhwng gwledydd. I weld polisïau a deddfwriaethau penodol i Gymru, ewch i wefan Shelter Cymru:<br><br>Shelter Cymru - Cartref yw popeth | Yn amrywio yn dibynnu ar y math o gwrs. | Cymysgedd o gyrsiau am ddim a rhai â thâl Cwrs y codir tâl amdano - hyd at £160/y pen) | https://homeless.org.uk/events/ |
| **Canllaw NICE [NG214] Iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl sy'n profi digartrefedd**<br>(Saesneg yn unig) | Mae'r canllaw hwn yn cwmpasu darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl sy'n profi digartrefedd. Ei nod yw gwella mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol ac ymgysylltu â nhw, a sicrhau bod gofal yn cael ei gydgysylltu ar draws gwahanol wasanaethau. | Dd/B | Am ddim | https://www.nice.org.uk/guidance/ng214 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llawlyfr gweithredu i ddilyn canllaw NICE [NG214]**<br>(Saesneg yn unig) | I gyd-fynd â'r canllaw uchod, cynhyrchir llawlyfr gweithredu. Mae'n cynnwys cyngor cam wrth gam a rhestrau gwirio ar sut i ddilyn argymhellion allweddol mewn gwahanol ddisgyblaethau, astudiaethau achos ar arfer da a dolenni i adnoddau. | Dd/B | Am ddim | https://assets-global.website-files.com/59f07e67422cdf0001904c14/63d251ef62a297db26f9f601_CHI-NICE-guidelines-resource.pdf |
| | Ochr yn ochr â'r canllawiau gweithredu mae cyfres o ffilmiau byr yn cael eu datblygu i ddangos sut y gall y canllaw gefnogi gweithwyr iechyd a chymdeithasol proffesiynol. | Dd/B | Am ddim | • Gweithwyr rheng flaen a chlinigwyr mewn gwasanaethau prif ffrwd megis adrannau damweiniau ac achosion brys a meddygfeydd<br>• Gweithwyr proffesiynol rheng flaen ym maes gofal cymdeithasol oedolion megis gweithwyr cymdeithasol â phrofiad amlddisgyblaethol, timau canolfannau gofal dydd a staff tai awdurdodau lleol<br>• Comisiynwyr gwasanaethau, yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | enwedig y rhai sy'n cyfuno iechyd a thai a gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl<br>• Uwch arweinwyr strategol sy'n cymryd golwg system gyfan ar iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Anna Freud- Elusen iechyd meddwl** (Saesneg yn unig) | Yn ymwneud yn benodol ag iechyd meddwl - Hyfforddiant cost isel ar feddyleiddio a dulliau therapiwtig eraill o ymdrin â thrawma seicolegol. Cynigir cyrsiau penodol iawn, hwy mewn iechyd meddwl. Mae hefyd yn ymdrin â chyfweld ysgogiadol, ond nid oes llawer o e-Ddysgu yn y maes hwnnw. Gan fod cyrsiau yn wahanol, byddai rhai gwahanol yn ddefnyddiol i wahanol feysydd iechyd cynhwysiant. Er enghraifft, mae rhywfaint o'u hyfforddiant ar hunan-niweidio, ac mae eraill ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi dioddef trawma. | Yn amrywio yn dibynnu ar y math o hyfforddiant sydd ei angen | Cost isel | https://www.annafreud.org/training/ |

**Tabl 3 (Diddordeb Arbennig):** Cyrsiau hyfforddi ac adnoddau i staff a hoffai gael gwybodaeth fanylach am iechyd cynhwysiant fel arbenigedd.

| Teitl | Cynnwys | Hyd | Cost | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Modiwl MSC mewn iechyd cynhwysiant** (Saesneg yn unig). Mae'r cwrs ar gael fel uned ddewisol ar MSc Iechyd y Boblogaeth UCL ond gellir ei astudio hefyd fel uned annibynnol gyda chredydau academaidd trosglwyddadwy neu yn syml ar gyfer DPP. | 1- Poblogaethau iechyd cynhwysiant a'u hanghenion iechyd<br>2- Y penderfynyddion cymdeithasol iechyd<br>3- Ymyriadau effeithiol ar gyfer cymunedau iechyd cynhwysiant<br>4- Casglu data ac ystadegau ar gyfer gwasanaethau iechyd cynhwysiant<br>Yn cwmpasu sylfaen wybodaeth yn y rhan fwyaf o'r cymwyseddau allweddol sy'n ymwneud ag iechyd cynhwysiant. | Saith diwrnod o ddysgu neu saith wythnos | **Cyfradd gyffredinol:** £1,300<br>**Cyfradd ostyngol y GIG:** £1,200<br>Consesiynau: £1,000<br>**Arbenigwyr drwy brofiad**: £0 – lleoedd cyfyngedig yn unig ar gyfer y rhai sydd â phrofiad bywyd | [https://www.ucl.ac.uk/epidemiology-health-care/study/short-courses/homeless-and-inclusion-health](https://www.ucl.ac.uk/epidemiology-health-care/study/short-courses/homeless-and-inclusion-health) |
| **Cwrs MSc mewn Iechyd Digartrefedd a Chynhwysiant (Coleg Prifysgol Birmingham)** | Gellir astudio'r cwrs (ar gyfer nyrsys cofrestredig yn y DU yn unig) fel cymhwyster MSc llawn-amser neu ran-amser wedi'i hunan-ariannu neu | 18 mis llawn-amser / opsiwn rhan-amser ar gael | **£9350** | [https://www.ucb.ac.uk/study/courses/postgraduate/community-spq-in-health-and-social-care-homeless-and-inclusion-health-nursing-msc/](https://www.ucb.ac.uk/study/courses/postgraduate/community-spq-in-health-and-social-care-homeless-and-inclusion-health-nursing-msc/) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | fel prentisiaeth Lefel 7. Bydd cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn eich galluogi i gynnwys 'Cymhwyster Ymarfer Arbenigol' (SPQ) ar eich cofnod ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Byddwch hefyd yn cael ardystiad gan Sefydliad Nyrsio'r Frenhines (QNI) gan fod y cwrs wedi'i fapio i Safonau SPQ Maes Penodol y QNI (Nyrsio Iechyd Digartref a Chynhwysiant), sy'n cyd-fynd â'r pedwar piler Ymarfer Uwch (HEE, 2017). | | | |
| **Cymorth gan gymheiriaid a phrofiad bywyd o hyfforddiant allanol i sefydliadau a busnesau/ Recovery Cymru** (Saesneg yn unig) | Rhoi Cymorth gan Gymheiriaid ar waith mewn Gwasanaethau<br>Deall Camddefnyddio Sylweddau | Yn amrywio | **Rhoi cymorth gan gymheiriaid ar waith mewn gwasanaethau:** tua £600 y dydd<br><br>**cefnogaeth i gymheiriaid:** tua £300 y pen neu prynwch | https://www.recoverycymru.org.uk/training/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Darparu Cymorth gan Gymheiriaid<br>Rheoli Camddefnyddio Sylweddau yn y Gweithle<br>Llesiant yn y Gweithle | | gwrs i grŵp o 6 am tua £1250 | |
